**CWYN AT YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS ADDYSG LYNN NEAGLE AS**

**Ar ran Grŵp Ymgyrch Addysg Cymdeithas yr Iaith, cyflwynaf gŵyn nad yw Cyngor Sir Ceredigion wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran darparu addysg yn gywir, trwy fethu cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Côd Trefniadaeth Ysgolion (Argraffiad 2018) – yr hyn sydd yn gallu, yn ôl y Crynodeb o'r Côd, arwain at gŵyn at Weinidogion Cymru. Yn benodol, ein cŵyn yw na wnaeth y Cyngor ddilyn y camau cywir wrth fod y Cabinet yn penderfynu (cyfarfod 3.9.24) cychwyn ymgynghoriad statudol ar Bapurau Cynnig a gyflwynwyd i gau pedair ysgol wledig Gymraeg yn y sir – sef Ysgolion Craig-yr-Wylfa, Syr John Rhys, Llanfihangel-y-Creuddyn a Llangwyryfon.**

Cyflwynwyd ein cŵyn yn wreiddiol (5.9.24) trwy brosesau mewnol y Cyngor a derbyniwyd ateb i'r cŵyn ar 23.9.24 gan Marie-Neige Hadfield (Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth) ac fe atodwn gopi. Ar ben hynny, yr ydym wedi derbyn yr wythnos ddiwethaf (9.10.24) ymateb i gais a wnaed dan Deddf Rhyddid Gwybodaeth y byddwn yn cyfeirio ato yn y cŵyn hwn. Yn ei hateb i ni dywed Ms Hadfield nad yw'r Cyngor yn derbyn fod ein cŵyn yn ddilys, ond yn hytrach yn "ddogfen lobio" er ein bod wedi ymgyfyngu i gyfeirio at brosesau'r Cyngor yn hytrach na chyfeirio at bolisïau. Ond fe aiff ymlaen i ateb ein cŵyn beth bynnag gan hyderu y bydd hyn o gymorth wrth i ni gyflwyno'n cŵyn i chwi yn unol â'r bwriad a ddatganwyd gennym.

Wedi defnyddio'r broses fewnol a oedd yn agored i ni, rydym yn awr yn cyflwyno'r cwyn i chwithau – yn unol â'n hawl statudol. Gan fod y cyfnod o ymgynghoriad statudol ar fin cychwyn, gofynnwn i chwi drin y mater yn un brys -er ein bod yn ymwybodol y byddwch am ystyried y mater yn ofalus iawn gan y gall osod cynsail ar gyfer Awdurdodau Addysg eraill o ran dehongli'r Cod fel ymarferiad "ticio blychau" yn unig neu drin o ddifri'r cysyniad Rhagdyb yn erbyn cau Ysgolion Gwledig (ar restr eich llywodraeth).

Mewn gwirionedd, nod y cwyn yw ceisio eglurder ynghylch y dehongliad o'r egwyddor sylfaenol ac, er tegwch i Gyngor Ceredigion, mae'n siwr y byddant hwythau hefyd yn falch o eglurder, gan fod eu Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cyfeirio at elfen o "amwysedd" yn ei gyfarwyddyd i'r Cabinet cyn iddynt ddod i benderfyniad i gychwyn ymgynghoriad statudol.

Ar ei symlaf, a ydyw ein dehongliad ni'n gywir – sef fod cynigydd ad-drefniant yn gorfod cychwyn o safbwynt diffuant rhagdyb yn erbyn cau ysgolion gwledig ar y rhestr, a dod i gasgliad fod yn rhaid cynnig cau ysgol wedi asesu fod

rheswm llethol pam na ellir ei chadw ar agor, a bod y gweithdrefnau a enwir yn enghreifftiau o fethodoleg asesu hyn ? Neu a ydyw dehongliad Ceredigion yn gywir y gall yr Awdurdod gychwyn o safbwynt y dylid cau cyfran o'i hysgolion er mwyn ceisio arbedion ariannol a'i unig ddyletswydd yn ôl y Cod yw mynd trwy set o weithdrefnau gosod gan nodi – mewn modd generig yn aml – na byddai opsiynau amgen yn ateb eu hamcan o arbedion ariannol i gyllideb y Cyngor, ac nad yw'r effaith niweidiol ar y gymuned leol yn gallu gwrthbwyso'r nod canolog o wneud arbedion.

**RHAGDYB YN ERBYN CAU YSGOLION GWLEDIG – EGWYDDOR A GWEITHDREFNAU**

Dylid prysuro i ychwanegu nad yw ein cwyn yn erbyn y Cyngor yn gyfyngedig i'r dehongliad sylfaenol hwn, gan fod gyda ni hefyd gwynion am y modd y cafodd y gweithdrefnau unigol eu trin gan y Cyngor yn yr achosion hyn, ond byddai eglurder ynghylch yr egwyddor sylfaenol o ddefnydd mawr i bob ochr yn y drafodaeth hon. Yn dilyn y cyfarfod ar 25.9.24 rhwng dirprwyaeth o Gymdeithas yr Iaith a chwithau ac Owain Lloyd (Cyfarwyddwr Y Gymraeg ac Addysg, Llywodraeth Cymru), yr ydym yn weddol hyderus am ein dehongliad o'r egwyddor sy'n sail i argraffiad 2018 y Cod. Yn ôl ein cofnodion ni o'r cyfarfod, fe ddywedasoch chwi "nad ymarferiad ticio blychau" yw glynu wrth y Côd i fod, ac ychwanegodd Mr Lloyd fod "Rhagdyb yn erbyn cau ysgolion gwledig yn golygu rhagdyb yn erbyn cau ysgolion gwledig"! Bu'r rhan honno o'r drafodaeth yn fyr iawn yn y cyfarfod gan fod eich atebion mor eglur ac i'r pwynt. Yr un fath, wrth gyflwyno'r newidiadau i'r Senedd yn 2018, bu'n amlwg nad oedd eich rhagflaenydd Kirsty Williams yn gweld yr egwyddor fel cyflwyno set ychwanegol o ofynion biwrocrataidd yn unig, ac nad dyna fwriad Senedd Cymru wrth dderbyn argraffiad newydd y Côd.

Mewn ateb i gwestiwn gan Suzy Davies AS mewn cyfarfod llawn o'r Senedd ar 19.9.18 (wrth edrych ymlaen at y Cod yn dod i rym bum wythnos yn ddiweddarach), dywedodd yr Ysgrifennydd Addysg Kirsty Williams "**Local authorities in those areas, if they have a school that's on the list, should start on the basis that closure is the last option and they should seek every opportunity through a variety of ways to keep those schools open"**

Dyma gadarnhau mai bwriad Senedd Cymru, wrth gyflwyno argraffiad newydd y Côd, oedd bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol ddechrau o safbwynt diffuant rhagdyb yn erbyn cau ysgolion ar y rhestr, gan droi at gynnig o gau ysgol ddim ond os metha pob peth arall. Ond mae Cyngor Ceredigion wedi camddeall ei

gyfrifoldeb o dan y Cod, gan dybio y gallent gychwyn o safbwynt bwriad i gau ysgolion gwledig i arbed arian yn eu cyllideb cyffredinol, ac *wedyn* eu hunig gyfrifoldeb oedd mynd yn awtomatig trwy set gosod o weithdrefnau cyn cadarnhau eu bwriad gwreiddiol o gynnig cau ysgol wledig.

Yn ei sylwadau i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu (cyfarfod 26.9.24), awgrymodd Barry Rees (Cyfarwyddwr Corfforaethol) wrth aelodau etholedig y pwyllgor fod y pennawd o “Ragdyb yn erbyn cau Ysgolion Gwledig” yn gamarweiniol, a’u hunig gyfrifoldeb yn ôl y Cod oedd dilyn set o weithdrefnau i ddangos eu bod wedi ystyried opsiynau amgen. Yn y cyfarfod blaenorol o’r Cabinet (3.9.24) a awdurdododd Ymgynghoriad statudol ar y cynigion i gau’r bedair ysgol, gwnaeth Arweinydd y Cyngor gyfeirio at honiad gan y cyhoedd nad yw'r Cyngor wedi dilyn y broses yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a gofyn am sicrwydd bod y broses wedi ei dilyn yn llygad y gyfraith, dyma ymateb Barry Rees: "Ie, jyst i gadarnhau yn ffurfiol ein bod ni wedi gwirio'r prosesau hynny gyda Llywodraeth Cymru, awduron y Cod Trefniadaeth Ysgolion”.

Gwnaeth Cymdeithas yr Iaith gais o dan Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar 5.9.24 i weld unrhyw ohebiaeth neu gofnod o gyswllt gydag unrhyw un yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru a allasai fod wedi rhoi sail i’r haeriad fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo bod Cyngor Ceredigion wedi gweithredu’n unol â’r Cod. Datgelwyd i ni (gan y Llywodraeth a chan y Cyngor) yr ebost perthnasol gan swyddog (di-enw i ni) ar ran y Llywodraeth wedi iddo ymateb i nifer o gwestiynau penodol a gwneud awgrymiadau “Please note that these are personal points and I can’t make any legal comments; I’ve only been able to have a quick look but hope this helps”. Fel rhan o’n cŵyn, casglwn fod y datganiad hwn gan y swyddog o’r Llywodraeth yn brin iawn fel sail i haeriad Mr Rees wrth y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno eu bod yn cydymffurfio gyda’r Côd Trefniadaeth Ysgolion. Yn hytrach, ein safbwynt yw fod y Cabinet wedi ei gamarwain cyn iddynt bleidleisio – trwy fwyafrif – i awdurdodi ymgynghoriad statudol ar y cynigion i gau’r bedair ysgol.

## DEHONGLIAD CYNGOR CEREDIGION O’U CYFRIFOLDEBAU O RAN Y COD

A bod yn deg wrth Gyngor Ceredigion, mae wedi bod yn hollol gyson ac yn agored am eu dehongliad cyfyngedig o ystod eu cyfrifoldebau o ran y Cod wrth ystyried dyfodol ysgolion gwledig, ac yn gwbl agored am eu hawydd I “leihau

eu hystad o ysgolion", sef cau nifer arwyddocaol o ysgolion gwledig, ac mae'r Awdurdod yn dod at ystyried dyfodol ysgolion gwledig o'r perspectif hwn.

Yn eu "Llawlyfr Trefniadaeth Ysgolion" ar gyfer y Cyngor (15ed Mehefin 2021) - gw atodiad - y mae dwy adran, sef Senario 1 ar adolygu ysgolion a Senario 2 ar newid iaith ysgolion. Pennawd Senario 1 yw "***Adolygu'r Ysgol (h.y. cau'r ysgol a chynnig darpariaeth amgen mewn ysgolion sy'n bodoli eisoes neu gau'r ysgol ac agor ysgol ardal newydd)***"!! Nid oes unrhyw awgrym o opsiynau eraill o ganlyniad i adolygu. Dyma ddangos fod rhagdyb o blaid cau ysgolion gwledig, mai cau ysgolion gwledig yw eu norm gan droi at opsiynau amgen yn unig os na bydd hyn yn bosibl. Cyhoeddwyd y ddogfen hon gan y cyngor dair blynedd *ar ôl* cyhoeddi Argraffiad 2018 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac ymateb amlwg y Cyngor yw bod y newidiadau yn y Cod yn gorfodi nifer o gamau gweinyddol ychwanegol wrth fynd trwy broses cau ysgolion gwledig ar restr y Llywodraeth, ond nad oes unrhyw newid sylfaenol mewn agwedd at yr ysgolion gwledig. Dyma sail y broses a arweiniodd at y penderfyniad i ymgynghori'n statudol ar gynnig a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 3.9.24 i gau ysgolion Craig-yr-Wylfa, Syr John Rhys, Llanfihangel-y-Creuddyn a Llangwyryfon.

**METHIANT A CHADW AT Y GWEITHDREFNAU PENODOL**

Hyd yma, ein pwyslais fu nad yw'r Cyngor wedi gweithredu'n unol â holl nôd yr adran hon o Cod Trefniadaeth Ysgolion o fabwysiadu rhagdyb yn erbyn cau ysgolion gwledig. Ond ein cwyn pellach yw na wnaeth y Cyngor – wrth benderfynu symud at ymgynghoriad statudol ar gynigion gau'r bedair ysgol - hyd yn oed lynu'n gywir wrth fanylion y gweithdrefnau penodol a roddwyd yn y Cod i gorffori'r egwyddor.

Ni wnaeth y Cyngor hyd yn oed gadw at y gweithdrefnau yr oedd wedi eu gosod yn ei lawlyfr ei hunan. Yn eu llawlyfr o 2021, rhoddir "Cam 3" fel a ganlyn -

"*Cam 3 - Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu – Mae hwn yn cynnwys 17 Cynghorydd a fydd yn craffu ar y cynnig* ***ac yn cynnig unrhyw opsiynau eraill*.**"

Mae hyn i fod yn digwydd **cyn** Cam 4, sef yr ymgynghoriad statudol. Ond yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 26.9.24, dywedwyd wrth gynghorwyr mai ***nodi*** penderfyniad y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol ar gynigion i gau'r ysgolion oedd eu hunig waith nhw, nid trafod opsiynau amgen. Mae cofnodion cyfarfod y pwyllgor yn cadarnhau hyn. Mae llawlyfr y Cyngor ei hun yn egluro fod y Pwyllgor i fod i graffu unrhyw gynnig i

gau ysgol, a thrafod opsiynau amgen **cyn** ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau ysgol, ond yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, cyhoeddwyd yn sydyn y byddai cam ychwanegol yn y broses – rhwng Cam 5 (Ymgynghoriad Statudol) a Cam 6 (Cyhoeddi Hysbysiad swyddogol i gau ysgol), sef y byddai yn Chwefror gyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i edrych ar yr Adroddiad ar Ymatebion i'r Ymgynghoriad, ac ***yna*** gynnig unrhyw opsiynau amgen.

Mae hwn yn gamddehongliad cyson ar ran y Cyngor o'u cyfrifoldeb o dan y Côd. Cred y Cyngor y gallant fabwysiadu eu hoff gynnig o gau ysgol yn gyntaf, ac wedyn ceisio unrhyw opsiynau amgen gan bobl eraill yn ystod neu ar ôl yr ymgynghoriad ar gynnig i gau'r ysgol. Ond mae hyn yn gwbl groes i'r hyn sydd yn y Côd ac i fwriad Senedd Cymru wrth dderbyn y Côd. Eto, yn ei hateb yn y siambr i gwestiwn gan Suzy Davies AS, dywedodd yr Ysgrifennydd Addysg Kirsty Williams “Presumption against a closure and the option to seek alternatives to keeping a school open, again, should not be left to the official consultation period, but should be employed by the council before they make any decision to go out to consultation on the future of the school. Because you (Suzy Davies) and I both know that once you start that official consultation process, that can blight an individual educational establishment. So, it's very clear that the local authority should use this code and consider the presumption even before they go to a formal consultation and they should take into their consideration their obligations under the future generations and well-being Act at that point.“

## AMSERLEN Y BROSES

Wrth droi at amserlen y Cyngor wrth ddod at benderfyniad i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynigion i gau'r bedair ysgol, daw yn amlwg fod y Cyngor wedi cychwyn o ragdyb fod angen cau nifer o ysgolion, ac heb ddilyn gofynion y Côd wrth ddod at benderfyniad y Cabinet yn y pen draw ar 3.9.24. Dyma'r amserlen sy'n amlygu mai ymgais i sicrhau arbedion brys yn y Gyllideb oedd unig reswm yr ymarferiad -

**23.01.24 –** Penderfynodd Cabinet Cyngor Ceredigion yn eu cyfarfod i basio adroddiad yn cynnwys arbed targed o £335k ar ysgolion cynradd yn 2025/26 yn rhan o “Budget Reduction Proposals” at y Pwyllgor Craffu nesaf. Yr oedd penaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr “rhai ysgolion” eisoes yr wythnos gynt wedi cael eu gwysio at gyfarfod arbennig ar 02.02.24.

**01.02.24 –** Bu cyfarfod (heb fod mewn calendr cyfarfodydd, ac heb gofnodion) o “Ffrwd gwaith” detholiad o gynghorwyr a oeddent yn aelodau o'r Pwyllgor

Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu. Mae cynghorwyr a fuont yn bresennol yn tystio na bu cyfle unrhyw ymdrafod ystyrlon, ddim ond eu hysbysu o'r bwriad i wneud yr arbedion, a bod 6 ysgol gynradd gwledig i gael eu hadolygu gyda'r bwriad o'u cau erbyn Medi 2025. Ni bu hawl cadw unrhyw bapur o'r cyfarfod, ac ni bu cofnodion. Fel prawf nad oedd unrhyw fewnbwn ystyrlon gan y cynghorwyr, yr oedd penaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr y 6 ysgol dan sylw eisoes wedi cael eu galw (ers 10 niwrnod) i gyfarfod y diwrnod canlynol i dderbyn y newyddion.

**02.02.24 –** Bu cyfarfod o benaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr 6 ysgol gynradd wledig. Hysbyswyd nhw gan swyddogion o'r angen i wneud arbedion yn y gyllideb, a bod eu hysgolion wedi eu targedu oherwydd fod capasiti dros ben ac felly cost uchel y disgybl, a bod cyfrifoldebau dysgu gan y penaethiaid. Esboniwyd y byddai proses adolygu'r ysgolion – yn unol â dehongliad swyddogion o'r Côd Trefniadaeth Ysgolion – ac y byddai Papurau Cynnig yn mynd at y Cabinet erbyn mis Gorffennaf, gan ystyried unrhyw opsiynau amgen heblaw am gau. Yn ôl un cadeirydd llywodraethwyr a oedd yn bresennol, "bu llawer mwy o gwestiynau nag o atebion". Yn ôl cadeirydd llywodraethwyr arall oedd yn bresennol "Naethon nhw ddim sôn am unrhyw opsiynau oedd yn cael eu hystyried, na egluro beth allai natur cynigion posib fod, dim ond dweud: 'oni bai fod rhywbeth yn tarfu ar y broses fel y'i hamlinellir yn y llawlyfr, bydd yr ysgolion hyn yn cau erbyn Medi 2025'". Nid yw'r dyfyniad hwn mewn cofnod cryno o'r cyfarfod.

**08.02.24 –** Pwyllgor Trosolwg a Craffu'n derbyn yr adroddiad yn cynnwys y targed o arbed £335k o ysgolion cynradd ac yn ei ddanfon nôl at y Cabinet gyda'r sylw "that future identified saving proposals for 2025/26 onwards would be placed on the scrutiny forward programme when appropriate"

**20.02.24** – Cyfarfod Cabinet yn argymell yr arbedion at y Cyngor llawn , a fu'n cyfarfod ar 29.02.24 ac yn derbyn yr argymhellion.

**20.02.24 –** Ail gyfarfod y "Ffrwd Waith Isadeiledd" (Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr y 6 ysgol a dargedwyd ar gyfer adolygu/cau er mwyn gwneud yr arbedion. Yn ôl y cofnodion o'r cyfarfod hwn, ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Barry Rees "Os ydych yn teimlo dylai opsiwn am eich ysgol gael ei gynnwys, yna dyma'r amser i chi ddweud". Ni allasai Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Llangwyryfon fod yn bresennol yn bersonol yn y cyfarfod hwn, ac felly wedi derbyn copi o'r cofnodion ddeg dydd yn ddiweddarach, aeth i ohebu gyda'r swyddog a benodowyd gan y Cyngor fel cyswllt â'r ysgolion ar y pryd (Mr Clive Williams) i geisio eglurhad am natur yr

“opsiynau” y gellid eu cynnig a’r broses o wneud hynny. Dyma gopi o’r ohebiaeth (“NL” yw cadeirydd y llywodraethwyr, a “CW” yw’r swyddog cyswllt Clive Williams)-

**NL - Beth yw’r broses ar gyfer cyflwyno opsiynau, ac ym mha ddiwyg y dylen nhw gael eu cyflwyno os gwelwch yn dda?**

***CW - Trafodwyd y byddai modd danfon unrhyw opsiwn sy’n mynd i sicrhau cynaliadwyedd yr ysgol atom mewn unrhyw ffurf er mwyn ei ystyried – OND hoffwn bwysleisio y bydd cyfle i wneud hyn / cynnig opsiynau arall yn swyddogol yn ystod y cyfnod ymgynghori (fydd tua Medi)***

**NL - Sut allwn ni fynd ynghylch deall pa opsiynau sy’n bosibl, a beth yw eu hoblygiadau?**

***CW - Gallwch gynnig syniadau ond eto mi fydd yr Awdurdod yn cynnig cymaint o opsiynau â phosib er mwyn ystyried pob dim – ond eto mi fydd cyfle swyddogol i wneud hyn tua Medi***

**NL - Sut y cawn ni fynediad at y data er mwyn dilysu a chostio ein opsiynau?**

***CW - Mae peth data wedi ei rannu gyda chi o safbwynt cyllid ysgolion / cyflwr yr adeilad ac ati –***

**Casgliad NL yw “Yn fyr, er eu bod nhw wedi yngan y geiriau cywir, chawson ni ddim cymorth nac arweiniad ar beth oedd ystyr “opsiynau amgen”, lle i fynd i ffeindio hyn allan, dim mynediad at unrhyw ddata perthnasol er mwyn cyfrifo dichonoldeb unrhyw opsiwn amgen, ac ... roedden nhw’n frwd iawn i chwarae i lawr pwysigrwydd gwneud unrhyw beth cyn yr ymgynghoriad, ac yn ein sicrhau fyddai’r Awdurdod yn cynnig “cymaint o opsiynau â phosib”(!)”**

Newidiwyd amserlen y Cyngor o fwriad i osod y Papurau Cynnig o flaen y Cabinet ar ddechrau Gorffennaf i’r cyfarfod Cabinet ar 3ydd o Fedi. Ni wyddys ai diffyg capasiti neu awydd i osgoi cyfnod etholiad cyffredinol oedd y rheswm dros hyn. Ond mae tystiolaeth ddogfennol fod y 4 Papur Cynnig – oll yn defnyddio’r un dadleuon generig i ddod i’r un casgliad mai cau ysgol oedd hoff opsiwn adolygu – yn barod erbyn Gorffennaf 1af. Yn ôl yr ohebiaeth ebyst gyda swyddog di-enw o Lywodraeth Cymru (a ryddhawyd i ni trwy gais Deddf Rhyddid Gwybodaeth) yr oedd swyddogion Ceredigion yn ceisio gwirio drafftiau terfynol eu Papurau Cynnig yn ystod Mai a Mehefin. Felly llai na thri mis a dreuliwyd rhwng y cyfarfod gyda’r penaethiaid a chadeiryddion y

llywodraethwyr ar 20ed Chwefror a therfynoli'r 4 Papur Cynnig ym Mai. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r ohebiaeth rhwng y gwahanol lywodraethwyr (yn cynnwys y ddwy ysgol nad aed ymlaen gyda chynigion ar eu cyfer "am y tro") a swyddogion y Cyngor yn datgelu rhwystredigaeth gynyddol na ellid derbyn unrhyw wybodaeth am y broses ( heblaw am anogaeth i aros nes cyhoeddi'r Papurau Cynnig ) na ffeithiau am eu hysgolion, a'r rhwystredigaeth yn gadael y llywodraethwyr i deimlo'n ddiymadferth o ran cynrychioli eu hysgolion. Er bod y wybodaeth oll wedi ei chasglu a'r cynigion yn barod ers Gorffennaf 1af, ni ddatgelwyd dim wrth y Llywodraethwyr hyd nes y diwrnod cyn cyhoeddi'r Papurau (5 niwrnod ymlaen llaw) ar gyfer cyfarfod y Cabinet ar 3ydd Medi 2024. Trwy'r cyfnod hwn, ni bu'r un ymweliad â'r ysgolion dan sylw na cheisio ganddynt unrhyw fewnbwn heblaw am ymateb i un holiadur gosod.

**03.09.24 – Cyfarfod Cabinet Cyngor Ceredigion –** Gosodwyd y Papurau Cynnig i gau'r bedair ysgol wledig Gymraeg o flaen y Cabinet gan yr Aelod sydd a Phortffolio Addysg, Cyng. Wyn Jones. Honna'r Cyngor mai dyma'r drafodaeth fanwl (ychydig oriau) cyn cymryd y penderfyniad sy'n dangos i "ystyriaeth ofalus" fod. Cymerwyd hanner amser y "drafodaeth" trwy fod y Cyng. Wyn Jones yn darllen yn gyhoeddus air am air yr holl bedwar Papur Cynnig, ond ei sylwadau wrth eu cyflwyno sydd yn allweddol. Dywedodd "Rydyn ni'n wynebu'r her ariannol mwyaf difrifol, ac nid ydym wedi cael y setliad ariannol sy'n ein galluogi i gynnal yr ysgolion ledled y sir, er nad oes amheuaeth fod safon yr addysg a gynigir ynddynt yn dda". Dyma ddatgelu – o gychwyn y broses tan y penderfyniad y diwrnod hwnnw i fynd at ymgynghoriad statudol ar gynigion i gau'r bedair ysgol – mai'r pwysau cyllidol, ac nid safon yr addysg, a yrrodd yr holl broses, a bod yr Awdurdod fel cynigydd wedi cychwyn o safbwynt fod yn rhaid cau nifer o ysgolion a oeddent yn cynnig "addysg o safon da". Mae'r cyfrifoldeb am y cam hwn yn cael ei osod ar Lywodraeth Cymru am beidio a chynnig y lefel o setliad ariannol a alluogai Gyngor Ceredigion i weithredu ei gyfrifoldebau o ran darparu addysg. Er i ni gydymdeimlo â safbwynt Cyngor Ceredigion, rhaid i ni gyflwyno i chwi'r cŵyn hwn gan fod y Côd hwn wedi ei osod gan Senedd Cymru er mwyn buddiannau dysgwyr. Nid yw cydymffurfio â'r Côd neu beidio i fod yn ddibynnol ar setliadau ariannol. Mae darparu addysg mewn modd teg, fel y'i diffinnir gan y Côd, yn hawl absoliwt, a'n dyletswydd yw cyflwyno i chwi gŵyn pan fo Awdurdod Lleol yn tanseilio'r hawl.

**Ein cŵyn yw fod Cyngor Ceredigion wedi torri egwyddor ganolog a manylion y Côd Trefniadaeth Ysgolion trwy'r hyn a wnaethant, a'r hyn na wnaethant,**

**yn ystod y cyfnod hwn a arweiniodd at y penderfyniad gan y Cabinet ar 3ydd Medi i awdurdodi ymgynghoriad statudol ar y cynigion i gau'r bedair ysgol wledig hyn.**

Mae'r amserlen a natur y cyfarfodydd a arweiniodd at y penderfyniad i gynnal ymgynghoriadau statudol ar y cynigion i gau'r bedair ysgol yn dangos yn eglur mai awydd i wneud arbedion yng nghyllideb cyffredinol y Cyngor a yrrodd yr holl broses, ac mae'r Cyngor wedi bod yn gwbl agored am hyn. Yn ymarferol, mae hyn yn ffurfio rhagdyb o blaid cau nifer o ysgolion gan mai dyna fwriad yr holl adolygiad, ac mae hyn yn gwbl groes i egwyddor sylfaenol argraffiad 2018 o'r Côd Trefniadaeth Ysgolion o ran y rhestr o ysgolion gwledig, a bwriad Senedd Cymru ar y pryd mai'r opsiwn olaf ddylai fod cau un o'r ysgolion hyn petai pob opsiwn arall yn methu. I'r gwrthwyneb, mae trefn a chynnwys y cyfarfodydd a'r ohebiaeth yn dangos fod y Cyngor wedi cychwyn o safbwynt ceisio dod o hyd i ysgolion i'w cau, ac yna osod baich cyfrifoldeb ar lywodraethwyr yr ysgolion i wneud achos dros gadw'r ysgolion ar agor. Mae'n ffeithiol gywir – o ran amserlen – mai ail gam *wedyn* yn y broses oedd i'r Cyngor geisio bodloni'r gweithdrefnau penodol, a hynny mewn modd generig ac arwynebol fel ymarferiad swyddfa'n unig. Trown at yr union ganllawiau o'r Côd Trefniadaeth Ysgolion y methwyd eu bodloni yn y broses -

**YSTYRIAETHAU ADDYSGOL DDYLENT FOD YN FLAENAF**

Mae Adran 1.3 o'r Côd (perthnasol i *bob* ysgol) o dan y pennawd "Ansawdd a safonau mewn addysg" yn datgan yn gwbl eglur "Dylai cyrff perthnasol roi buddiannau dysgwyr uwchlaw popeth arall". Er ei bod yn gwbl briodol werthuso ystod eang o ystyriaethau, mae'r Côd yn hollol bendant mai gwella safon yr addysg ddylai yrru unrhyw broses. Ond, wrth gynnig i'r Cabinet (3.9.24) y dylid cychwyn ymgynghoriad statudol ar gynigion i gau'r bedair ysgol, dywedodd yr Aelod a phortffolio addysg y Cyng Wyn Jones nad oedd ganddo unrhyw broblem o ran safon yr addysg yn y bedair ysgol hyn.

I'r gwrthwyneb, dengys hanes datblygu'r Papurau Cynnig i gau'r ysgolion mai awydd i arbed arian yng nghyllideb gyffredinol y Cyngor a yrrodd yr holl broses. O holi'r swyddogion yn bellach yn ystod y ddadl yn y cyfarfod Cabinet, cafwyd mai amcangyfrif nominal oedd £250,000 a'r unig arbedion penodol y gellid eu hadnabod fyddai gwerth £85,000. Er mwyn hyn y cynigwyd amharu ar addysg tua 100 o ddisgyblion, ac amddifadu pedair cymuned o gyfleustra addysgol.

Ni chymerwyd sylw o unrhyw ystyriaeth addysgol hyd nes bod y swyddogion yn dechrau paratoi eu hachos dros eu cynnig o gau'r ysgolion. Hyd yn oed wedyn, ni honnwyd fod unrhyw broblemau addysgol penodol yr oedd angen eu datrys trwy gau'r ysgolion, ond yn hytrach rhoddwyd y dadleuon generig ystrydebol sef
* fod mwy nag un oedran yn yr un dosbarth
* fod diffyg niferoedd o'r un oedran i gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau
* fod penaethiaid yn gorfod ymgymryd a rhai cyfrifoldebau dysgu
Copïwyd yr un dadleuon generig i'r drafft (a osodwyd gerbron y Cabinet) o'r pedwar gwahanol Bapur Cynnig i gau'r ysgolion, a hynny heb unrhyw werthusiad o liniaru problemau felly trwy drefnu mewn ffederasiwn, a heb unrhyw ymdrech i nodi manteision ysgolion gwledig cymharol fach – fel mentora disgyblion iau gan rai hŷn, a chyfranogiad llawer mwy rhieni a'r gymuned yn yr ysgolion nag a geir mewn ysgolion mwy yn gyffredinol. Pe dibynnid ar ddadleuon generig o'r fath, gellid mynd ati i gau pob ysgol gynradd dan 90 o ddisgyblion, yn cynnwys mwyafrif yr ysgolion ar restr swyddogol y Llywodraeth o Ysgolion Gwledig y mae rhagdyb yn erbyn eu cau ! Mae'n amlwg nad dyna fwriad Senedd Cymru wrth dderbyn argraffiad 2018 o'r Côd Trefniadaeth Ysgolion. I'r gwrthwyneb, dywedodd yr Ysgrifennydd Addysg ar y pryd, Kirsty Williams (mewn dadl ar lawr y Senedd ar 21.11.18 – sef y mis y cyflwynwyd y Côd) "I am clear that there can be real benefits—academic, cultural and social—to pupils and communities through the delivery of high-quality education in small and rural schools. I know, and parents across rural communities know, that small and rural schools play an important role in raising standards and extending opportunities for all"

Mewn gair, nid adnabuwyd yr un rheswm addysgol penodol dros gau yr un o'r bedair ysgol y penderfynwyd cynnal ymgynghoriad statudol ar gynigion i'w cau. Dyma ganlyniad ymarferiad swyddfa, heb ymweld na thrafod gyda'r ysgolion dan sylw. Mynnwn fod yr Awdurdod wedi methu'n gwbl sylfaenol yma i ddilyn gofynion y Côd wrth ddod i benderfyniad i ymgynghori ar gynigion i gau'r ysgolion hyn. Mae'r Côd yn nodi'r math o broblemau addysgol y byddai angen sylw brys iddynt – fel methiant I gyflwyno'r cwricwlwm, cyflwr adeilad amhosibl etc. Nid oedd unrhyw reswm addysgol I frysio creu Papurau Cynnig I gau'r ysgolion hyn. Yr unig angen brys ym meddyliau'r Awdurdod oedd awydd I wneud arbedion ariannol yn y gyllideb gyffredinol, a methodd yr Awdurdod yn ei gyfrifoldeb i ddarparu addysg yn gywir o ganolbwyntio'n unig ar arbedion yn

y gyllideb, gan ddod i gasgliad cau ysgolion ar ddechrau proses yn hytrach nag fel casgliad i broses gwerthuso opsiynau'n ofalus.

**DYLID YSTYRIED DARPARIAETH ADDYSGOL A LLEFYDD YSGOL FESUL ARDAL GAN GYFRI'N GYWIR GORMODEDD LLEOEDD**

Dadleuwn ymhellach fod yr Awdurdod wedi torri un arall o ganllawiau'r Côd wrth benderfynu cynnal ymgynghoriad statudol ar gynigion i gau'r bedair ysgol hyn. Yn ei awydd i wneud rhywfaint o arbedion ariannol yn yr amser cyflymaf posibl, gwnaeth y Cyngor "bigo ar" 6, ac yna 4, ysgol wasgarog trwy'r sir ar sail y lleoedd gwag a'r gost y disgybl o ddarparu addysg yn yr ysgolion unigol hyn. Mae'r drefn hon yn groes i gyfarwyddyd 1.5 o'r Côd sy'n datgan y dylid edrych ar y sefyllfa *fesul ardal* yn hytrach nag ar ysgolion unigol (heblaw am fod problemau neilltuol i ysgol unigol). Dyma'r drefn, er enghraifft, a ddilynwyd gan Awdurdod Addysg lleol Ynys Môn wrth adolygu darpariaeth addysg fesul ardal.

Dyma'r adran berthnasol o'r Côd (1.5) – a anwybyddwyd gan Gyngor Ceredigion "Os oes mwy na 10% o leoedd gwag **mewn ardal yn gyffredinol,** dylai Awdurdodau Lleol adolygu eu darpariaeth ac ystyried os y dylent wneud cynigion ar gyfer cael gwared arnynt..... Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy **ac o leiaf 30 o leoedd gwag**."
Ni wnaeth Cyngor Ceredigion adolygu'r sefyllfa fesul ardal, ac nid yw 3 o'r 4 ysgol y cynigir eu cau yn cwrdd a'r criterion uchod gan nad oes ynddynt "o leiaf 30 o leoedd gwag". Mae'n ddadlennol fod yr ohebiaeth ebost rhwng Mr Barry Rees (Cyfarwyddwr Corfforaethol Ceredigion) a swyddog di-enw ar ran Llywodraeth Cymru (i geisio gwirio dilysrwydd safbwynt Cyngor Ceredigion) yn cyfeirio at yr unig un o'r bedair ysgol dan sylw sy'n cwrdd a'r criterion hwn.

Cyfeirir wedyn at y ddadl generig arall o'r gost y disgybl o ddarparu addysg mewn ysgol wledig fach. Wrth gwrs fod darparu unrhyw wasanaeth cyhoeddus mewn ardal wledig gymharol amhoblog yn costio'n fwy y pen nag mewn ardal drefol fwy poblog oherwydd realiti mathemateg elfennol. Ond gan fod llai o wasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig, gallai'r gwariant cyfan y pen fod yn llai nag sydd mewn ardaloedd trefol. Byddai rhoi pwys mawr ar y ddadl generig hon felly yn ffurfio'n ymarferol rhagdyb dros gau ysgolion gwledig – yn gwbl groes i nod y Côd Trefniadaeth Ysgolion.

Mae cymal 1.5 y parhau ymhellach "Er y gofynnir i awdurdodau lleol reoli gormodedd o leoedd ychwanegol, nid yw hyn yn golygu cau ysgolion yn awtomatig. Mae adrannau 1.7 ac 1.8 o'r Côd yn annog cynigwyr i ystyried yr opsiynau eraill er mwyn gwneud yr ysgol yn fwy hyfyw, neu wneud defnydd o'r

adeiladau presennol fel adnodd cymunedol. Cant eu hannog hefyd i ad-drefnu gofod ysgolion trwy gydleoli gwasanaethau o fewn yr ysgol er mwyn arbed costau. Fel arfer ni ddylid fod angen darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion os oes gan ysgolion eraill o'r un fath, leoedd gwag o fewn pellter rhesymol."

Yn eu brys i wneud arbedion yn y gyllideb gyffredinol trwy gau (fel dewis cyntaf) nifer o ysgolion gwasgarog, ni wnaeth Cyngor Ceredigion ddilyn y cyfarwyddyd eglur yn y Côd i edrych ar y ddarpariaeth fesul ardal ac, o ganlyniad, collwyd nifer o'r cyfleon hyn. Er enghraifft y mae ysgol gynradd arall a allai wynebu prinder lleoedd o fewn dwy filltir i Ysgol Craig-yr-Wylfa y cynigir ei chau. Yn eironig hefyd, er nad yw 3 o'r 4 ysgol wledig y cynigir eu cau yn cwrdd a criterion "nifer sylweddol o leoedd gwag", mae'r ysgolion derbyn a enwir i dderbyn plant o 3 o'r 4 ysgol wledig fach yn cwrdd a'r criterion. Yn ol criterion y Côd, mae lleoedd gwag sylweddol yn Ysgolion Talybont a Llanilar, ond ni bu unrhyw ymgais i ymchwilio i ddefnydd amgen o'r gofod dros ben yn yr ysgolion hyn yn unol a'r cyfarwyddyd yn y Côd.

Mae hyn yn ein harwain at y diffyg mwyaf o ran peidio dilyn y Côd Trefniadaeth Ysgolion wrth benderfynu cynnal ymgynghoriad statudol ar gynigion y bedair ysgol wledig, sef -

**YN BENNAF OLL DYLID YSTYRIED POB OPSIWN AMGEN *CYN* CYNNIG CAU YSGOL**

Dyma egwyddor sylfaenol argraffiad 2018 y Côd o ran ysgolion gwledig, er ei bod hefyd yn egwyddor sylfaenol i argraffiad cyntaf y Côd mewn perthynas ag ad-drefnu unrhyw ysgol. Ein dadl yw na wnaeth Cyngor Ceredigion dddilyn y cyfarwyddyd clir hwn yn y Côd trwy

1) Beidio ag ystyried o gwbl nifer o opsiynau hyfyw a enwir yn y Côd – oherwydd yr awydd brys i wneud arbedion ariannol

2) Beidio ag ystyried "yn gydwybodol" nac "yn ofalus" (yn ol cyfarwyddyd y Côd) yr ychydig opsiynau amgen a enwir – oherwydd mai'r bwriad oedd i geisio "ticio blwch ystyried opsiynau amgen" yn hytrach na'u gwerthuso'n deg yn erbyn eu hoff opsiwn o gau ysgolion

3) Beidio ag ystyried yr opsiynau amgen pan oedd cynigion yn dal "ar gam ffurfiannol" – eto oherwydd fod yr Awdurdod eisoes wedi penderfynu ar eu hoff gynnig o gau nifer o ysgolion i geisio arbedion ariannol, ac *wedyn* yn ystyried unrhyw opsiwn arall mewn ymgais arwynebol i fodloni gofynion y Côd.

Cychwynnwn gyda'r trydydd pwynt. Mae'r Côd yn datgan yn glir (3.1) "Mae'r gyfraith achosion wedi pennu y dylai'r broses ymgynghori gael ei chynnal **pan fydd cynigion yn *dal ar gam ffurfiannol*"** (sef yr egwyddor gyntaf)**.** Mae'r Côd yn gwbl eglur felly fod yn rhaid ystyried pob opsiwn, a'u trafod gyda rhanddeiliaid **cyn bod ffurfio unrhyw gynnig.** Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod, os cred fod problem mewn ardal o ran darpariaeth addysg, i ystyried yr holl opsiynau yn ofalus ac yn gydwybodol a'u trafod gyda rhanddeiliaid cyn ffurfio ei gasgliad ei hunan a pharatoi (yn achos ysgol wledig ar y rhestr) Papur Cynnig i geisio caniatâd i fynd at ymgynghoriad statudol yn ei gylch. Ni wnaeth Cyngor Ceredigion ddilyn y broses hon fel y mae amserlen eu cyfarfodydd a thrafodaethau (a roddwyd uchod) yn dangos.

Mae'r Côd yn gosod y cyfrifoldeb ar y cynigydd i ddadansoddi a gwerthuso'n gydwybodol yr holl opsiynau posibl, ac yna ymgynghori'n anffurfiol yn eu cylch. Ni all yr Awdurdod – fel cynigydd – ymwared a'i gyfrifoldeb trwy ofyn i lywodraethwyr roi gwybod a oes opsiynau amgen ganddynt. Ac yn sicr nid ymgynghoriad na thrafodaeth ddifrifol yw gofyn am unrhyw syniadau, heb ymweld i drafod na darparu unrhyw wybodaeth na ffeithiau am r hyn a ystyrir fel opsiynau dilys. Ond ni ddaeth unrhyw drafod, na chrybwyll braidd, o opsiynau amgen tan y drafodaeth yn y Cabinet ar 3.9.24 pryd yr oedd yr Awdurdod eisoes wedi ffurfio ei gynigion i gau'r ysgolion, ac yn ceisio caniatad i fynd at ymgynghoriad ar y cynnig hwnnw.. Mae pob sylw a chyfeiriad gan yr Awdurdod tan y cyfarfod hwnnw, ac yn wir yn ystod y cyfarfod, a hyd yn oed yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau dysgu wedyn (26.9) yn pwysleisio mai mewn ymateb i'r ymgynghoriad statudol ar gynigion i gau'r ysgolion y mae'r cyfle cywir i godi opsiynau amgen. Mae hyn yn groes i'r cyfarwyddyd clir yn y Côd, ac yn ymarferol danseilio holl egwyddor waelodol y rhagdyb ***yn erbyn*** cau ysgolion gwledig.

Mewn ymateb i'n cŵyn trwy broses fewnol y Cyngor, dywed Marie-Neige Hadfield (Rheolwr Cwynion Cyngor Ceredigion) fod dau amddiffyniad yn erbyn y cyhuddiad sylfaenol hwn. Yn gyntaf, fod y rhan (3.1) o'r Côd a ddyfynnais yn cael ei rhagflaenu gan y gair "Dylai" "Mae'r gyfraith achosion wedi pennu y **dylai'r** broses ymgynghori gael ei chynnal pan fydd cynigion yn dal ar gam ffurfiannol". Mae'n datgan – yn gywir – fod y canllawiau yn y Côd a ragflaenir gan y gair "dylai" yn argymhellion yn unig (o ran arfer da) a bod y canllawiau gorfodol yn cael eu rhagflaenu gan y gair **"Rhaid**". Ymddengys felly mai amddiffyniad y Cyngor yw eu bod yn cydnabod y dylasent fod wedi trafod yr opsiynau cyn penderfynu ar eu hoff opsiwn neu gynnig, ond wnaethon nhw

ddim gwneud hynny gan nad oedd raid iddynt wneud yn eu tyb nhw – a'u bod ar frys i arbed arian ?

Gwrthodwn ddehongliad Ms Hadfield yma. Nid yw'r cymal hwn yn un o ganllawiau newydd y Côd Trefniadaeth Ysgolion. Yn hytrach, mae'n dyfynnu'n ffeithiol y sefyllfa gyfreithiol a sefydlwyd trwy gyfraith achosion ac, yn yr achos hwn felly, nid yw'r gwahaniaeth a wneir yng nghanllawiau'r Côd rhwng "dylai" a "rhaid" yn berthnasol i'r cymal hwn sy'n gosod allan y sefyllfa gyfreithiol yn ffeithiol, a rhaid i Awdurdodau lynu at yr hyn a sefydlwyd mewn cyfraith. Dyma'r gyntaf o bedair egwyddor sylfaenol, ac mae diwedd adran 3.1 yn egluro'n ddigamsyniol "Fodd bynnag, **rhaid** i gynigwyr gofio'r pedair egwyddor syfaenol a chymryd unrhyw gamau ychwanegol angenrheidiol i sicrhau y cynhelir yr egwyddorion hyn". Ni wnaeth yr Awdurdod gyflawni eu dyletswydd yma o dan y Côd.

Ail amddiffyniad Ms Hadfield ar ran y Cyngor yw eu bod wedi cyflawni eu dyletswydd beth bynnag i ystyried yr opsiynau cyn ffurfio cynigion i gau'r ysgolion trwy fod Mr Barry Rees – yn yr ail gyfarfod gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr y 6 ysgol ar 20.02.24 – wedi dweud wrthynt y gallent anfon i mewn unrhyw opsiwn arall, a dywed Ms Hadfield fod digon o amser i gyflawni hynny cyn cyfarfod y Cabinet i benderfynu. Ond yr ydym eisoes wedi dangos fod y Côd yn gosod y cyfrifoldeb ar y cynigydd (Cyngor Ceredigion yn yr achos hwn) i ystyried yr holl opsiynau **cyn** ffurfio cynnig i gau ysgol, ac ni all ymwared a'r gyfrifoldeb trwy ofyn i'r llywodraethwyr feddwl am unrhyw opsiynau, yn enwedig heb ddarparu unrhyw wybodaeth berthnasol iddynt am y broses. Dywed adran 1.8 o'r Côd (o dan isbennawd "llunio'r Cynnig") "***Bydd yn ofynnol i'r cynigydd ystyried y rhesymau hyn"*** – nid gofyn yn unig a oes syniadau gan ryw gorff arall !

Trydydd amddiffyniad Ms Hadfield, ar ran y Cyngor, yw fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i werthuso opsiynau amgen trwy gynnig nifer o opsiynau yn y drafftiau o'r pedwar Papur Cynnig a osodwyd o flaen y cyfarfod Cabinet ar 3.9.24. Mae Cymdeithas yr Iaith yn dadlau mai ymarferiad tocenistaidd oedd hwn, ac nad oedd yr opsiynau mwyaf amlwg ac ymarferol wedi eu cynnwys, ac nad oedd yr ychydig opsiynau a restrwyd wedi eu gwerthuso'n "ofalus" nac yn "gydwybodol".

O ran yr opsiynau a ystyriwyd, defnyddiwyd dadleuon generig heb werthuso'n "ofalus" nac yn "gydwybodol" a oedd yr opsiynau'n addas ar gyfer yr ysgolion

unigol dan sylw. Yn wir, ailadroddir union yr un geiriau generig (mewn dull "cut & paste") i gyfeirio at wahanol ysgolion. Cymerwn y Papurau Cynnig drafft i gau Ysgolion Llangwyryfon a Llanfihangel-y-Creuddyn. Cynigir union yr un ystod o 5 opsiwn o ran y ddwy ysgol. Heblaw am opsiwn y status quo ac opsiwn cau'r ysgol  a danfon y plant at Ysgol Llanilar, rhoddir opsiynau partneriaeth rhwng Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn ac Ysgol Llanilar fel clwstwr anffurfiol, fel ffederasiwn o'r ddwy ysgol, neu fel ysgol dwy-safle. Cynigir union yr un 5 opsiwn i Ysgol Llangwyryfon o ran statws quo, cau'r ysgol a danfon y plant i Ysgol Llanilar, neu bartneriaeth rhwng y ddwy ysgol yna eto fel clwstwr anffurfiol, fel ffederasiwn dwy ysgol neu fel ysgol dwy-safle. Wrth wrthod opsiwn partneriaeth rhwng dwy ysgol fel clwstwr, ffederasiwn neu ysgol dwy-safle, defnyddir union yr un geiriad generig heb unrhyw astudiaeth cost-budd yng nghyd-destun yr ysgolion penodol. Dywedir yn unig "Ni byddai'n mynd i'r afael a niferoedd disgyblion isel", "Yr angen i gynnal dau adeilad", "Byddai lleoedd gwag o hyd", "Ni byddai'n arwain at yr arbedion ariannol gofynnol", "Ni byddai'n debygol o wella hyfywedd yr ystad ysgolion". Defnyddir union yr un geiriad – air am air – wrth ddadansoddi union yr un opsiynau ar gyfer Ysgolion Llanfihangel-y-Creuddyn a Llangwyryfon. Nid yw'r rhain yn ddadansoddiadau difrifol o opsiynau, ond yn ymarferion biwrocrataidd mewn swyddfa. Gellid fod wedi arbed rhagor o arian trwy ddefnyddio AI (Deallusrwydd Artiffisial) i gynhyrchu'r dadleuon generig, yn lle talu swyddogion i wneud y gwaith !

Mae'r Côd yn gofyn yn benodol i gynigydd ystyried "Ffedereiddio" fel opsiwn amgen i gau ysgol, gan ddweud fod budd mawr yn gallu deillio o ddilyn y llwybr hwnnw. Mae'n amlwg nad y bwriad oedd i Awdurdod wrthod yr opsiwn gyda brawddegau generig, neu fyddai ffedereiddio byth yn cael ei ddewis yn opsiwn. Cyfrifoldeb amlwg Awdurdodau Lleol yw gwerthuso a chydbwyso manteision addysgol Ffedereiddio ac amcangyfrifo'r arbedion gweinyddol yn erbyn y ffaith nad dull o drin problem nifer llai o ddisgyblion ydyw.

Yn achos y Papur Cynnig drafft i gau Ysgol Craig-yr-Wylfa, cynigir union yr un patrwm o opsiynau eto o ran cynnal stus quo, cau'r ysgol a throsglwyddo'r plant i Ysgol Talybont, neu greu ysgol 2-safle neu ffederasiwn gydag un ysgol arall - Ysgol Talybont, gan adael allan y tro hwn opsiwn clystyru anffurfiol. Yn y "dadansoddiad" opsiynau, defnyddir , air am air, union yr un geiriad generig ag a ddefnyddiwyd yn achos y ddwy ysgol arall.

Yn achos y Papur Cynnig drafft i gau Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd, rhoddir ychydig yn fwy o opsiynau (ac ymddiheurwn am beidio a sylwi ar hyn ynghynt).

Yn ogystal a chynnal y statws quo a chau'r ysgol gan anfon y plant i Ysgol Mynach, rhoddir hefyd opsiynau Ffederasiwn rhwng 2 ysgol neu 3 ysgol, ac ysgol 2-safle neu 3-safle. Ond , yn bell o fod yn ddadansoddiadau "manwl" yn ôl yr honiad, nid ydynt yn ddadansoddiadau difrifol o gwbl, gan ddibynnu ar union yr un geiriad generig unwaith eto. Rhoddir yr un frawddeg na byddai'r opsiwn "yn cynhyrchu'r arbedion gofynnol" wrth opsiynau ffederasiwn 2 ysgol neu 3 ysgol neu ysgol 2-safle neu 3-safle. Mae'n amhosib fod union yr un sefyllfa cost-budd i'r pedwar gwahanol opsiwn a sefyllfa yma. Ni roddir yr awgrym lleiaf o faint o arbedion gweinyddol a chyllidol, a faint o gyfleon addysgol newydd a fyddent yn deillio o'r gwahanol fodelau hyn. Nid oes unrhyw ymdrech difrifol yma, nac yn y Papurau Cynnig drafft eraill, i werthuso gwahanol opsiynau – ddim ond enwi opsiynau a rhoi'r un frawddeg generig wrth bob un. Mae hwn yn fethiant clir iawn o ran dilyn cyfarwyddion y Côd Trefniadaeth ysgolion o ran ffurfio ac ystyried "yn ofalus" ac "yn gydwybodol" gwahanol opsiynau, gan ddewis opsiwn cynnig cau ysgol yn unig os oedd opsiynau eraill oll yn methu.

Honnir fod defnyddio dull SWOT i werthuso'n fanwl pob opsiwn. Dyma'r diffiniad safonol o'r dull gwerthuso mewn modd adeiladol -
Dadansoddiad **SWOT** Mae SWOT yn golygu:-
**Cryfderau (Strengths**) - y mae modd eu canolbwyntio a'u hadeiladu
**Gwendidau (Weakness)** - y mae modd gweithio arnynt i'w gwella
**Cyfleoedd (Opportunities)** - y mae modd eu datblygu neu fanteisio arnynt
**Bygythiadau (Threats)** - y mae modd eu rheoli neu eu lleihau

Ond ymddengys mai fersiwn neilltuol Ceredigion o fethodoleg SWOT yw
* rhestru cryfderau heb unrhyw awydd i adeiladu arnynt na gweld potensial
* nodi gwendidau fel problemau anorchfygol
* bod yn ddall i gyfleoedd
* gosod bygythiadau fel rheswm i ddewis opsiwn cael gwared a phroblem trwy gau ysgol.

Nid yw'r dadansoddiadau yn "fanwl" fel yr honnir ond yn generig, nac yn seiliedig ar ddeialog gyda phobl leol, nac yn dangos unrhyw uchelgais i weld cyfleon o'r newydd. Yr unig nod yw ceisio dangos fod awdur y cynnig wedi darllen y Côd Trefniadaeth Ysgolion, ac wedi ymdrechu i wneud y lleiaf posibl i gydymffurfio'n arwynebol.

**Heblaw am fethu a gwerthuso'n ystyrlon yr opsiynau amgen a enwir, dyma hefyd restr o rai opsiynau amlwg (y mwyafrif ar y rhestr o ganllawiau yn y Côd) na chawsant eu hystyried.**

* Nid yw'n gwneud synnwyr fod ystyried ar wahan ffederasiwn rhwng Ysgol Llangwyryfon ac Ysgol Llanilar, ac hefyd ffederasiwn rhwng Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn ac Ysgol Llanilar. Mae'n amlwg y byddai llawer mwy o arbedion o ran gweinyddu a phwrcasu ac arweinyddiaeth, a llawer mwy o gyfleon addysgol newydd o greu ffederasiwn o'r 3 ysgol, neu o bosib o 4 ysgol gan dynnu i mewn Ysgol Llanfarian gyfagos hefyd. Yr un fath byddai mwy o botensial i ysgol 3 neu 4-safle nag i ysgol 2-safle yn unig. Mae rheoliadau Ffedereiddio diwygiedig 2014 yn rhoi hawl i Awdurdod Lleol yrru proses o'r fath. Ond wrth gwrs golygai astudiaeth gost-fudd ddifrifol i gael hyd i strwythur cynaliadwy at y dyfodol. Mae'n amlwg nad oedd hwn yn opsiwn deniadol i Awdurdod Lleol a oedd am wneud arbedion ariannol cyflym o ganlyniad i gyn lleied o waith gweinyddol a phosib. Ond gan fod dyfodol addysg y plant, a dyfodol eu cymunedau yn y fantol, haedda'r ysgolion hyn astudiaeth drylwyr – mewn cydweithrediad a'r rhan-ddeiliaid – i gael hyd i'r opsiwn y gall pawb deimlo perchnogaeth arno.
* Rhoddwyd sylw yn unig i rhyw ffurf ar gydweithio rhwng Ysgol Craig-yr-Wylfa ac Ysgol Talybont fel opsiynau amgen i gau Ysgol Craig-yr-Wylfa neu i gynnal y staws quo. Ond ni bu unrhyw astudiaeth o opsiwn creu ffederasiwn neu ysgol 2-safle rhwng Ysgol Craig-yr-Wylfa ac Ysgol Rhydypennau. Mae Ysgol Rhydypennau filltir yn nes at Ysgol Craig-yr-Wylfa nag yw Ysgol Talybont, ac mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus lawer yn well, a gall hyn fod yn arbennig o berthnasol gan fod cyfran uwch o ddisgyblion o aelwydydd incwm isel yn Ysgol Craig-yr-Wylfa. Mae Ysgol Rhydypennau hefyd yn 86% yn llawn o ran capasiti, ac felly gallasai'r capasiti dros ben yn Ysgol Craig-yr-Wylfa fod yn opsiwn ac adnodd pwysig at y dyfodol. O leiaf, dylid fod wedi ymchwilio i opsiwn mor amlwg, gyda'r posibiliad o gynnwys hefyd Talybont fel 3edd ysgol neu safle mewn trefniant o'r fath.
* Ni roddwyd sylw i opsiwn arloesol creu ffederasiwn rhwng Ysgol Uwchradd Gymraeg Penweddig a nifer o'r ysgolion cynradd gwledig Cymraeg hyn yng ngogledd y sir, boed ar eu ffurf presennol neu fel ysgolion cynradd aml-safle. Mae'r Rheoliadau ar Ffedereiddio yn annog cynlluniau blaengar o'r fath, a buasai manteision arbennig yn ardal Aberystwyth. Mae'r Ysgol Uwchradd Gymraeg gyda nifer sylweddol o leoedd gwag, a buasai ffederasiwn o'r fath wedi clymu cyfran uwch o ddisgyblion cynradd yr ardal i mewn i gontinwwm at addysg uwchradd Gymraeg, yn ogystal a hwyluso'r datblygiad cyffredinol o

addysg gynradd i addysg uwchradd. Mae potensial y manteision addysgol hefyd yn hunan-amlwg. Ond, oherwydd yr awydd brys i gau'r bedair ysgol wledig hyn, nid aed ati i archwilio opsiwn fel hwn chwaith.
* Ni roddwyd sylw digonol, wrth werthuso opsiynau, i safle daearyddol unigryw Ysgol Syr John Rhys ym Mhonterwyd. Ar ben hyn, o edrych ar ardal Ponterwyd/Pontarfynach/Pontrhydfendigaid yn unol a gofyniad y Côd i gynllunio darpariaeth fesul ardal, nid oes graddfa ormodol o leoedd gwag trwy'r ardal. Mae ol brys (er mwyn gwneud arbedion cyflym) ar yr astudiaeth opsiynau ar gyfer yr ardal hon, gan ei bod hefyd yn amheus a fyddai gofod digonol i ddisgyblion Ysgol Syr John Rhys yn Ysgol Mynach, ac mae cyfrifoldeb gan Awdurdod Addysg – wedi ei bwysleisio yn y Côd – i gynllunio digon o leoedd ysgol ym mhob ardal at y dyfodol.
* Anwybyddwyd hefyd yr enghreifftiau eraill a roddir yn y Côd o opsiynau amgen heblaw am gau ysgol e.e. (1.7/1.8) " a ellid archwilio'r posibiliadau o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol ? ... ystyried a fyddai'n ddichonadwy ac yn ddarbodus cydleoli gwasanaethau lleol yn yr ysgol i wrthbwyso costau cynnal yr ysgol" – a gall hyn fod yn berthnasol o'r newydd wrth fod cymaint o staff uniongyrchol y Cyngor yn peidio a theithio i swyddfeydd y Cyngor i gyflawni eu gwaith bob dydd. Yn ogystal ag unrhyw gapasiti dros ben yn yr ysgolion y mae cynigion i'w cau, gallasai cynllun o'r fath fod yn berthnasol hefyd i'r "ysgolion derbyn" sydd a nifer arwyddocaol o leoedd gwag – Talybont a Llanilar. Manyla adran 1.8 o'r Côd ar y math o opsiynau y dylid eu hystyried ""defnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol i gynnal a chefnogi ystod o wasanaethau cymunedol, e.e. iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu i deuluoedd ac i oedolion, addysg gymunedol, chwaraeon, gweithgareddau hamdden, gweithgarwch cymdeithasol ac ati." Nid oes unrhyw ddadansoddiad difrifol o'r opsiynau/datrysiadau hyn, na hyd yn oed cyfeiriad at y mwyafrif ohonynt. Ceir yn unig, unwaith eto frawddeg generig (fel y gellir awgrymu fod yr opsiwn wedi ei ystyried !) fel "Mae cydleoli gwasanaethau lleol o fewn yr ysgol wedi ei ystyried er mwyn ariannu cost cynnal a chadw'r ysgol, ond nid yw'n debygol o fod yn hyfyw yn ariannol nac ymarferol. Rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch disgyblion o ran diogelu a rheoli mynediad i'r adeilad yn ystod diwrnod ysgol" *Rhoddir union yr un ddwy frawddeg – air am air – yn y Papurau Cynnig drafft eraill.* Unwaith eto ceir ymateb generig gyda bwriad "ticio blwch" heb unrhyw ymdrech i ymchwilio i'r sefyllfa a'r potensial lleol o ddifri. Nid yw hyn yn gyson a gofynion y Côd Trefniadaeth Ysgolion.

**Ein cŵyn felly yw nad yw'r Awdurdod wedi gwerthuso nifer o opsiynau hyfyw cyn cynnig cau'r ysgol, ac wedi cynnal gwerthusiad arwynebol a generig o'r opsiynau y mae wedi eu crybwyll. Y nod amlwg fu ceisio enwi nifer o opsiynau'n unig er mwyn rhoi ymddangosiad cydymffurfio a gofynion y Côd, ond gyda'r bwriad o gyfiawnhau yr opsiwn a oedd wedi ei bennu o'r cychwyn, sef cau'r ysgolion.**

Yn olaf, mae Ms Hadfield ar ran y Cyngor yn dadlau fod y ffaith i'r opsiynau cyfyngedig hyn gael eu cynnwys mewn fersiynau drafft o'r Papurau Cynnig ar ddechrau'r cyfarfod o'r Cabinet a bleidleisiodd dros gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynigion i gau'r ysgolion, yn ddigonol i foddio'r gofyniad i ystyried opsiynau cyn bod ffurfio cynnig i gau ysgol. Dehongliad sigledig iawn o'r gofyniad yw fod cynnig yn dal ar gam ffurfiannol hyd at y funud y caiff y cynnig (i gynnal ymgynghoriad) ei basio ! Fe aiff ymlaen i fynnu fod pob cyfeiriad at "Ymgynghoriad" yn y Côd yn cyfeirio'n unig at yr ymgynghoriad statudol ar y cynnig a gynhwysir yn y Papur Cynnig. Mae hyn yn amlwg yn groes i'r gyfraith achosion a ddyfynnir yn y Côd (fod ymgynghori tra bo cynnig yn dal ar gam ffurfiannol), ond mae pob methiant gan y Cyngor i ddilyn gofynion y Côd yn deillio o'r camddehongliad hwn.

**O edrych ar y dystiolaeth, mae'n amhosib casglu fod Cyngor Ceredigion wedi cydymffurfio a'r gofyniad yn adran 1.8 o'r Côd "Y nod yw sicrhau, *pan gynigir cau ysgol wledig (hynny yw ar adeg wneud y cynnig i'r Cabinet),* mai dim ond ar ol ystyriaeth ofalus iawn y penderfynir ymgynghori ar yr opsiwn hwnnw, a hynny ar ol ystyried pob opsiwn rhesymol arall a chynnal asesiad clir o ddilysrwydd y rhesymeg ac o gwestiwn ymarferoldeb"**

## CAMDDEHONGLIAD

Mae'r methiannau i gadw at ofynion y Côd yn dangos fod swyddogion y Cyngor yn gyson wedi camddehongli trefn ac amserlen yr ymarferiad fel y'i gosodir allan yn y Côd uchod, a holl gysyniad rhagdyb yn erbyn cau ysgol wledig. Credent ei bod yn iawn *cychwyn* yr ymdrafod yn ystod yr ymgynghoriad statudol, a hynny ar gynigion i gau ysgolion. Mor hwyr a 12.5.24 – dri mis wedi cychwyn y broses – ysgrifennodd Clive Williams (ar y pryd – Dirprwy Brif Swyddog Addysg Ceredigion, a Swyddog Arweiniol corfforaethol Ysgolion) mewn ebost at Gymdeithas yr Iaith "Y cam cyntaf fydd cyflwyno papur cynnig i Cabinet y Cyngor ym mis Gorffennaf eleni (a newidiodd i fis Medi) sy'n adnabod rhai posibiliadau i gwrdd a'r heriau sylweddol sy'n bodoli ar draws ein gwasanaethau". I'r swyddogion felly, yr oedd y cam neu'r cyfle cyntaf yn iawn i

randdeiliaid fod yn rhan o'r broses oedd yn yr ymgynghoriad statudol wyth mis wedi cychwyn y broses, ac mewn ymateb i gynnig oedd eisoes wedi ei wneud i gau'r ysgol. Hyd yn oed wedyn , yr oedd y neges yn ddryslyd gan gyfeirio at un Papur Cynnig a oedd yn "adnabod rhai posibiliadau" yn hytrach na phapur cynnig – gyda chynnig pendant – ar gyfer pob ysgol eisoes wedi ei benderfynu gan y Cabinet. Mae'r neges gamarweiniol hon yn gyson a'r neges a roddodd yn ol ym mis Mawrth i gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Llangwyryfon yn eu hannog i aros nes bod cyfnod ymgynghoriad statudol cyn mynegi barn.

Os na bydd penderfyniad fod y broses a arweiniodd at y penderfyniad i ymgynghori ar gynigion i gau'r bedair ysgol wedi ei gymryd yn groes i ofynion Côd Trefniadaeth Ysgolion, mentrwn ddweud y bydd pob cynigydd yn y dyfodol hefyd yn rhydd i anwybyddu egwyddor sylfaenol y Côd a phrysuro i fynd trwy gamau "cut & paste" cyn cyflwyno cynnig ar gyfer ymgynghoriad. Yr hyn a gynigir sy'n llywio'r holl ymgynghoriad ac yn tanseilio ymddiriedaeth mewn ysgolion. Dyna paham yr ydym yn gwneud y cŵyn yn awr – fod Cyngor Ceredigion heb ddilyn y Côd *wrth benderfynu mynd i ymgynghoriad statudol ar gynnig i gau'r ysgolion. Y broses o ffurfio cynnig i gau ysgol ac wedyn ystyried yr opsiynau amgen sy'n groes i egwyddor y Côd.* Petai aros nes bod yr holl broses wedi ei chwblhau a Hysbysiad Swyddogol i gau'r ysgolion, byddai fait accompli a fyddai'n gwneud unrhyw benderfyniad ar ein cŵyn yn ddi-ystyr. Gofynnwn felly i chwi wneud datganiad clir ar y mater hwn, fod angen i Gyngor Ceredigion atal yr ymgynghoriad gwallus hwn a chynnal trafodaeth agored gyda rhan-ddeiliaid am ddyfodol yr ysgolion gwledig hyn, gan gynnal hygrededd y Côd at y dyfodol

**NI RODDWYD SYLW DYLADWY I EFFAITH CAU'R YSGOLION AR EU CYMUNEDAU AC AR Y GYMRAEG**

Mae'r Côd hefyd yn mynnu fod asesiadau manwl yn cael eu gwneud – o flaen yr ymgynghoriad statudol – o effaith cynnig i gau ysgol ar yr iaith Gymraeg. Ein cŵyn yw fod y Cyngor wedi gwneud y lleiafswm posibl (yn arwydd eto o frys i wneud arbedion ariannol, nid agwedd gwrth-Gymraeg) i asesu effaith cau'r bedair ysgol ar y Gymraeg. Yn y bôn, cesglir na bydd unrhyw effaith oherwydd y bydd y disgyblion yn ymdrosglwyddo o ysgol Gymraeg ei chyfrwng y mae cynnig i'w chau, at ysgol dderbyn sydd hefyd yn Gymraeg ei chyfrwng. Mae ymarferiad o'r fath yn ddigonol i dicio blwch, ond nid i ddadansoddi natur y cymunedau unigol a'r effaith debygol ar y Gymraeg. Nid ystyrir
a) y ffaith y gallai cyfran o'r disgyblion gael eu colli i addysg Gymraeg gan fod y

4 ysgol o fewn cyrraedd i dref Aberystwyth lle mae ysgolion Saesneg eu cyfrwng. Os nad oes ysgol yn yr union gymuned, gall fod yn haws yn ymarferol i nifer o rieni, ac yn enwedig i fewnfudwyr, ddanfon eu plant yn hytrach at ysgol Saesneg ei chyfrwng yn nhre Aberystwyth os yw eu gwaith yno.Mae nifer o ysgolion pentrefol Cymraeg yn yr ardal wedi eu cau o fewn y blynyddoedd diwethaf, a gallasid fod wedi ymchwilio i weld a wireddwyd ofnau felly. Yr ydym yn ymwybodol fod symudiadau ar droed i gyflwyno elfen gryfach o addysg Gymraeg i ysgolion cynradd eraill tre Aberystwyth, ond bydd unrhyw drawsnewid yn cymryd rhai blynyddoedd i'w gwblhau, a gellid colli nifer arwyddocaol i addysg Gymraeg yn y cyfamser.
(b) Er mai'r Gymraeg yw cyfrwng addysg yr holl ysgolion dan sylw, mae ambell ysgol bentrefol gydag ethos Cymraeg fel cyfrwng yr iard chwarae a Chymreigio plant mewnfudwyr. Mae llywodraethwyr Ysgol Llangwyryfon yn tystio'n arbennig i hyn a gallai hyn gael ei golli o ymdrosglwyddo at ysgol fwy.
(c) Ym mhen arall y sbectrwm, mae Ysgol Craig-yr-Wylfa gyda chyfran helaeth o aelwydydd Saesneg eu hiaith. Byddent yn debygol o Seisnigo Ysgol Talybont o'u trosglwyddo yno, a chysylltu'r iaith ddim ond ag addysg. Yn Y Borth, mae gyda nhw eu llwybr eu hunain at y Gymraeg yng nghyd-destun eu cymuned eu hunain. Gan mai ymarferiad byr mewn swyddfa'n unig oedd dadansoddi ffigurau i greu'r adroddiadau hyn, nid oedd modd ymelwa ar adnabyddiaeth leol o'r ysgolion a'r cymunedau unigol ac, o ganlyniad, mae'r sail ar gyfer ymgynghoriad yn wallus.

Eto dim ond holiadur safonol a anfonwyd allan er mwyn asesu effaith ar y gymuned o gau'r ysgolion – dim cyfweliadau nag ymweliadau. Generig eto fu'r adroddiadau. Cymerwn enghraifft Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn. Cesglir "Mi allai'r effaith ar y gymuned fod yn sylweddol gan fod cyfleustra cymunedol yn cael ei golli.... Serch cydnabod yr effaith ar y gymuned, mae'r gostyngiad yn y nifer o ddisgyblion ar y gofrestr, hyfywedd ariannol a chynaladwyedd yr ysgol yn brif ystyriaethau". Mewn geiriau eraill "Trueni am y gymuned, ond mae materion pwysicach". Mae hyn yn côdi'r cwestiwn am beth felly yw pwrpas ceisio gwneud asesiad effaith ar y gymuned os na bydd byth yn ffactor penderfynol. Dyma enghraifft eto o "ticio blychau" mewn modd tocenistaidd.

**Yn y bôn, ein prif nod wrth wneud y cŵyn hwn yw sefydlu a oes grym i wneud gwahaniaeth gan argraffiad 2018 o'r Côd Trefniadaeth Ysgolion – yn unol a bwriad Senedd Cymru ar y pryd – neu a oes rhwydd hynt i Awdurdodau Lleol ei drin fel ymarferiad biwrocrataidd o dicio blychau "cywir". Gan eich bod chwithau'n awr yn gyfrifol am gynnal integriti'r côd**

**statudol hwn, gofynnwn i chwi gasglu fod sail i'n cŵyn, a gorchymyn i Gyngor Ceredigion ailgychwyn trafodaeth agored a diffuant am ddarpariaeth addysgol yn ein cymunedau gwledig fel y gellir symud ymlaen yn unol.**

***Ffred Ffransis, ar ran Grŵp Ymgyrch Addysg, Cymdeithas yr Iaith* – 14.10.24**